

POLISI GWRTH-WYNGALCHU ARIAN

Beth yw Gwyngalchu Arian?

Gwyngalchu arian yw'r broses a ddefnyddir gan droseddwr i guddio gwir ffynhonnell a pherchnogaeth enillion eu gweithgarwch troseddol, gan ganiatáu iddynt gadw rheolaeth dros yr enillion ac, yn y pen draw, mae hyn yn creu'r argraff bod ffynonellau eu hincwm yn gyfreithlon.

Bu gwyngalchu arian yn drosedd yn y DU am fwy na degawd ac ymdrinnir ag ef o fewn fframwaith cyfreithiol y DU drwy'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddf Terfysgaeth 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfysgaeth, Troseddau a Diogelwch 2001 a Deddf Terfysgaeth 2006)

Deddf Enillion Troseddau 2002

Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007

Mae unrhyw sefydliad sy'n ymdrin â nifer mawr o drafodion ariannol, lle nad yw adnabod y ffynhonnell bob amser yn hawdd, mewn perygl.

Rhwymedigaethau'r Brifysgol

Penodi Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian i dderbyn, ystyried a, lle y bo'n briodol, adrodd am hysbysiadau gan gyflogeion ynghylch gweithgarwch amheus

Rhoi gweithdrefn ar waith i alluogi staff i roi gwybod am ymddygiad amheus

Cynnal gweithdrefnau adnabod cwsmeriaid

Cynnal a chadw cofnodion digonol o drafodion

Addysgu a hyfforddi staff o ran prif ofynion y ddeddfwriaeth

Sicrhau bod staff yn gwybod pwy yw'r Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian a lledaenu'r wybodaeth honno

Rhwymedigaethau Staff

Mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i BOB aelod staff. Mewn egwyddor, gallai unrhyw aelod staff gyflawni trosedd o dan ddeddfwriaeth gwyngalchu arian os yw'n amau gwyngalchu arian ond yn penderfynu peidio â gweithredu yn ei gylch. Os oes gan aelod staff unrhyw reswm dros amau, dylai hysbysu'r Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian am y mater yn uniongyrchol.

Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian Prifysgol Abertawe

Y Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian yw Mr Rob Brelsford-Smith (Cyfarwyddwr Cyllid)

Gwyngalchu Arian - y Gogledd Ymarferol

Er bod y Rheoliadau Gwyngalchu Arian yn cyfeirio'n benodol at drafodion ariannol sy'n werth dros 15,000 Ewro, mae'r Ddeddf Enillion Troseddau yn berthnasol i'n holl drafodion a gall gynnwys ymwneud ag asiantau, trydydd partïon, eiddo neu gyfarpar, sieciau, arian parod neu drosglwyddiadau banc.

Hydref 2015

Y prif faes risg (ond nid yr unig un o bell ffordd) yw ymwneud â myfyrwyr rhyngwladol. Mae rheoliadau ar waith sy'n ymwneud â statws mewnfudo a theitheb myfyrwyr, felly mae rhwymedigaethau'r Brifysgol yn y maes hwnnw'n cael eu monitro a'u hadrodd gan yr Uned Cofnodion Myfyrwyr sy'n adrodd yn uniongyrchol i Asiantaeth Ffiniau'r DU. Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol i hysbysu Asiantaeth Ffiniau'r DU am unrhyw achos lle bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r Brifysgol neu os nad yw myfyriwr yn cofrestru. Y maes lle mae angen bod yn wylidwrus ynghylch gwyngalchu arian, yw trafodion ariannol a wneir gan neu ar ran myfyrwyr.

Arwyddion posib gwyngalchu arian:

- Symiau sylweddol o arian parod yn cael eu talu
- Gordaliadau sylweddol heb eu hesbonio
- Pryderon ynghylch gonestrwydd neu uniondeb rhywun sy'n gwneud taliad
- Cynnwys trydydd parti nad oes ganddo unrhyw gysylltiad amlwg â'r mater heb esboniad rhesymol
- Newidiadau sylweddol ym maint, natur neu amllder trafodion a wneir gan neu ar ran myfyriwr heb esboniad rhesymol
- Diddymu, gwrthdroi trafodion blaenorol neu geisiadau i'w had-dalu

Polisi Prifysgol Abertawe

Er bod rhaid i staff fod yn wylidwrus ac yn ymwybodol o ofynion y darnau amrywiol o ddeddfwriaeth a nodir uchod, rhaid cofio, wrth gwrs, y bydd achosion lle gall myfyriwr ordal, efallai na fydd ganddo fynediad ar unwaith i fanc yn y DU neu gall ofyn am ad-daliad. Mae gan Brifysgol gyfarwyddiadau clir iawn ynghylch sut i ymdrin ag achosion o'r fath.

Ad-dalu blaendal a dalwyd ymlaen llaw

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl fyfyrwyr rhyngwladol newydd dalu blaendal o £2,000 na chaiff ei ad-dalu oni bai y gwrthodir teitheb y DU i'r myfyriwr o dan y System Mewnfudo ar Sail Pwyntiau; neu oni fydd y myfyriwr yn methu cyflawni gofynion mynediad y Brifysgol. Lle y bo'n berthnasol, caiff ad-daliad ei wneud i ffynhonnell wreiddiol y blaendal gan ddefnyddio'r un dull talu.

Ad-dalu ffioedd i fyfyriwr sydd wedi tynnu'n ôl

Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl neu'n gohirio ei astudiaethau, y Swyddog Cofnodion Myfyrwyr fydd yn penderfynu ar atebolrwydd i dalu ffioedd, gan gyfeirio at y Rheoliadau Ariannol sy'n rheoli'r fath achosion. Gweler y dyfyniad isod:

'E.4 INCWM

Polisi Ad-daliadau

Tynnu'n ôl/Gohirio

Ni chaiff unrhyw gais i ad-dalu ffioedd ei ystyried oni bai fod ffurflen tynnu'n ôl/gohirio wedi cael ei chwblhau'n llawn a'i llofnodi gan "gartref/ysgol/adran y myfyriwr".

Hydref 2015

Ad-dalu ffioedd

Pan benderfynir bod ad-daliad i'w wneud, rhaid ad-dalu'r taliad hwnnw i'r talwr gwreiddiol gan ddefnyddio'r un dull talu â'r taliad gwreiddiol.

Sail ar gyfer cyfrifo ad-daliadau (myfyrwyr sydd wedi gohirio eu hastudiaethau neu dynnu'n ôl)

www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-a-chyllid/ffioedd-dysgu/

Gordaliadau

Ni ddylai'r Brifysgol gael ei defnyddio fel 'banc' ar gyfer myfyrwyr sydd am sianelu costau byw drwy gyfrif banc y Brifysgol. Caiff gordaliadau sylweddol (ar ôl talu ffioedd dysgu a/neu ffioedd llety) eu dychwelyd i ffynhonnell y taliad ac ni chânt eu had-dalu i fyfyrwr (oni bai fod tystiolaeth bendant iawn bod camgymeriad wedi'i wneud).

Taliadau Arian Parod

Bydd y Brifysgol yn annog myfyrwyr i beidio â thalu ag arian parod a bydd yn amlygu hyn wrth gyfathrebu â myfyrwyr. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd amgylchiadau lle bo rhaid i fyfyrwr dalu ag arian parod. Felly, mae terfyn o £5,000 wedi'i gael ei bennu ar gyfer derbyn unrhyw daliad sengl ag arian parod. Ni ddylid derbyn taliadau arian parod dros y swm hwnnw heb ganiatâd penodol y Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian.

Hydref 2015